



Adolygiad y Llywodraeth o Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn adolygu dyfodol oedran pensiwn y wladwriaeth o dan ddarpariaethau Deddf Pensiynau 2014, ac mae'n bwriadu cyhoeddi cyn mis Mai 2017 a fydd yr oedran pensiwn yn cynyddu ac, os felly, i ba oedran.

Mae'r oedran pensiwn wedi cynyddu'n gyflymach nag erioed ers 2010 a'r bwriad ar hyn o bryd yw ei gynyddu i 68 rhwng 2044 a 2046. Mae'r cynnydd yn arbennig o gyflym i ferched, er ei fod yn effeithio ar ddynion hefyd.

Yn hwyr ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth ddau adroddiad allweddol a fydd yn dylanwadu ar ei hadolygiad o oedran pensiwn y wladwriaeth:

- Adolygiad John Cridland o Oedran Pensiwn y Wladwriaeth;
- adolygiad Adran Actiwari'r Llywodraeth o dueddiadau mewn marwolaethau yn y DU.

Mae NASUWT wedi cyflwyno tystiolaeth fanwl i Adolygiad Cridland ac mae hefyd wedi cyfarfod â John Cridland. Mae NASUWT wedi defnyddio'r cyfleoedd hyn i wrthwynebu'r cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth.

Er enghraifft, cyflwynodd NASUWT dystiolaeth i John Cridland yn deillio o ddata'r Adran Addysg a oedd yn dangos mai dim ond 44 y cant o'r athrawon yng Nghymru a Lloegr, rhwng 2010 a 2015, oedd wedi gweithio hyd eu hoedran pensiwn gyfredol. Prin iawn oedd yr athrawon (dim ond 2.5 y cant o'r athrawon rhwng 2010 a 2015) a weithiodd yn hŷn na 60 mlwydd oed. Roedd tystiolaeth NASUWT yn pwysleisio'r ffaith fod pwysau addysgu'n golygu bod llawer o athrawon yn ymddeol flynyddoedd cyn oedran pensiwn o 60, heb sôn am 68. Mae perygl y gallai oedran pensiwn uwch gondemnio llawer o athrawon i dlodi wrth i'r bwlch gynyddu rhwng eu hoedran pan maent yn gorffen gweithio a'r oedran pan gânt gymryd eu pensiwn.

Adroddiad Terfynol Adolygiad Cridland

Dyma brif ganlyniadau Adroddiad Terfynol Adolygiad Cridland sy'n berthnasol i bensiynau:

- dylai'r oedran pensiwn gynyddu i 68 rhwng 2037 a 2039, sef saith mlynedd yn gynharach na'r bwriad yn ôl yr amseriad deddfwriaethol cyfredol;
- ni ddylid cael unrhyw gynyddiadau pellach yn yr oedran pensiwn cyn 2047, a dylai'r oedran pensiwn ar ôl hynny ddigwydd bob deng mlynedd;
- dylid diddymu mynegeio 'tri chlo' pensiwn y wladwriaeth a dylid ei uwchraddio gyda mynegai enillion yn y dyfodol, yn hytrach na lleiafswm o 2.5 y cant y flwyddyn;
- dylid caniatáu i bobl dderbyn rhywfaint o incwm pensiwn, yn ddibynnol ar brawf modd, o 67 oed ymlaen pan fydd yr oedran pensiwn yn codi i 68;

- dylai'r Llywodraeth gyflwyno trefnau pensiwn sy'n cefnogi gweithio y tu hwnt i oedran pensiwn y wladwriaeth, yn cynnwys rhoi'r opsiwn i bobl sy'n gohirio eu pensiwn gael eu gwobrwyo gyda chyfundaliad unwaith y byddent wedi dechrau cymryd eu pensiwn;
- dylai fod pobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth yn gallu tynnu rhan o'u pensiwn allan, tra bo'r balans yn cynyddu yn ei werth am ei fod wedi ei ohirio. Dylai hyn gael ei gyflwyno gynted ag sy'n bosibl ac erbyn 2027 fan bellaf;
- dylai'r Llywodraeth gyfathrebu'n well gyda phobl ynglŷn â newidiadau i'r oedran pensiwn;
- dylid cymryd camau i sicrhau fod pobl yn gallu adeiladu cymaint o bensiwn y wladwriaeth ag y gallent drwy gymryd credydau Yswiriant Gwladol ychwanegol.

Mae Adroddiad Terfynol Adolygiad Cridland hefyd yn gwneud yr argymhellion dilynol yn ymwneud â chyflogaeth er mwyn cefnogi pobl sydd angen gweithio'n hirach o ganlyniad i'r cynnydd yn yr oedran pensiwn:

- dylai pob cyflogwr gael polisi yn ei le i helpu pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu;
- dylid cael absenoldeb gofalwyr statudol i bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu. Dylai hyn gael ei gyflwyno gynted ag sy'n bosibl ac erbyn 2027 fan bellaf;
- dylid cynnal adolygiad gyrfa canol-bywyd (sef 'MOT canol-bywyd') i annog pobl i wneud dewisiadau realistig ynghylch eu swyddi, eu hiechyd ac ymddeol;
- mae gweithwyr hŷn yn hanfodol i ymdrin â phrinder sgiliau. Dylai'r Llywodraeth a'r cyflogwyr wneud mwy o ddefnydd o weithwyr hŷn fel hyfforddwyr a mentoriaid prentisiaethau – i drosglwyddo sgiliau o un genhedlaeth i'r nesaf. Dylid cychwyn gweithio ar hyn ar unwaith.

Ymateb NASUWT

Oedran Pensiwn Athrawon

Un o'r prif faterion sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth yw mai dyma oedran pensiwn athrawon yn y Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig hefyd. Erbyn 2037, bydd yr holl athrawon yng Nghynllun Pensiwn Athrawon 2015 a byddent yn gweld eu hoedran pensiwn fel athrawon yn cynyddu i 68, gyda'r oedran isaf pan gânt gymryd eu pensiwn yn cynyddu i 58, os nad yw hyn wedi digwydd yn barod.

Roedd y dystiolaeth gan NASUWT i Adolygiad Cridland yn pwysleisio bod yn rhaid torri'r cysylltiad rhwng oedran pensiwn y wladwriaeth ac oedran pensiwn athrawon ac y dylid caniatáu i Gynllun Pensiwn Athrawon osod ei oedran pensiwn ei hun.

Mae NASUWT wedi dweud yn glir wrth y Llywodraeth bob amser bod yn rhaid adolygu'r cysylltiad rhwng oedran pensiwn y wladwriaeth ac oedran pensiwn athrawon yn dilyn unrhyw benderfyniad i gynyddu oedran pensiwn y wladwriaeth, am fod hyn yn un o brif ddatganiadau'r Trysorlys yn ystod diwygiad y pensiynau gwasanaeth cyhoeddus. Mae Adroddiad Terfynol Adolygiad Cridland wedi nodi'r disgwyliad yma'n glir iawn i'r Llywodraeth hefyd. Bydd NASUWT yn parhau i wasgu am dorri'r cysylltiad rhwng oedran pensiwn y wladwriaeth ac oedran pensiwn athrawon.

Gostwng Achosion o Athrawon yn Gorweithio nes mynd yn Sâl a Newid y Diwylliant mewn Ysgolion

Mae'n bleser gan NASUWT weld fod John Cridland wedi cydnabod y pwysau penodol y mae athrawon yn eu hwynebu a'i fod wedi rhoi sylwadau am achosion o athrawon yn gorweithio nes mynd yn sâl, sy'n gyrru athrawon allan o'r proffesiwn ymhell cyn eu hoedran bensiwn gyfredol o 60 neu 65, heb sôn am oedran bensiwn sy'n 68 ac yn hŷn.

Mae'n bleser gan NASUWT weld fod John Cridland wedi cydnabod bod angen cael mwy o gyfleoedd i weithio'n hyblyg, a bod angen i gyflogwyr werthfawrogi gweithwyr hŷn yn llawer mwy er mwyn atal athrawon a gweithwyr eraill mewn swyddi sy'n llawn pwysau rhag disgyn allan o'r farchnad lafur i galedi ymhell cyn y gallant gael eu pensiynau. Bydd NASUWT yn gofyn am gamau clir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau fod arbenigedd athrawon hŷn yn cael ei gydnabod a bod dewis o lwybrau gyrfaol gwobrwyol ar gael i athrawon o bob oed er mwyn eu cadw yn y proffesiwn.

Adolygiad Adran Actiwari'r Llywodraeth o Dueddiadau mewn Marwolaethau yn y DU

Ar sail tybiaethau'r Llywodraeth am ddisgwyliadau oes ac ar gais y Llywodraeth, mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi modelu dwy sefyllfa dybiedig – un lle mae pobl yn treulio 33.3% o'u bywydau fel oedolion wedi ymddeol, ac un lle mae pobl yn treulio 32% o'u bywydau fel oedolion wedi ymddeol (gyda bywydau fel oedolion yn cychwyn yn 20 oed). Mae'r sefyllfaoedd hyn yn tybio'r cynyddiadau a ganlyn yn yr oedran pensiwn y mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi hysbysu'r Llywodraeth amdanynt:

- yn y sefyllfa wedi'i seilio ar 33.3%, bydd yr oedran pensiwn yn cynyddu i 68 yn 2039;
- yn y sefyllfa wedi'i seilio ar 32%, bydd yr oedran pensiwn yn cynyddu i 68 yn 2028;
- yn y sefyllfa wedi'i seilio ar 33.3%, bydd yr oedran pensiwn yn cynyddu i 69 yn 2053;
- yn y sefyllfa wedi'i seilio ar 32%, bydd yr oedran pensiwn yn cynyddu i 69 yn 2040;
- yn y sefyllfa wedi'i seilio ar 32%, bydd yr oedran pensiwn yn cynyddu i 70 yn 2054.

Ymateb NASUWT

Mae cynnydd yn yr oedran pensiwn i 69 yn 2040 a chynnydd pellach yn yr oedran pensiwn i 70 yn 2054 yn hollol annerbyniol i NASUWT. I gannoedd o filoedd o athrawon ar draws y DU, mae'r oedran pensiwn hŷn yn darged na fyddent yn gallu ei gyrraedd, mae mor syml â hynny.

Mae NASUWT yn galw ar y Llywodraeth i wrthod yn gyfan gwbl y cynyddiadau yn yr oedran pensiwn sydd wedi eu disgrifio yn yr adroddiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Disgwylir y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canlyniad ei hadolygiad o oedran pensiwn y wladwriaeth erbyn mis Mai eleni fan bellaf.

Mae anghydfod diwydiannol NASUWT am bensiynau'n parhau.

